O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 753 (Cy. 60)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 42, Earlswood, Castell-nedd Port Talbot i Bwynt i'r Gorllewin o Gyffordd 44, Lôn-las, Abertawe) (Cyfyngiad Cyflymder 50 mya, Gwaharddiadau a Chaniatáu Traffig ar y Llain Galed Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Mawrth 2015* |
| *Yn dod i rym* | *23 Mawrth 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4) ("y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar neu gerllaw'r draffordd.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, dehongli a chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Mawrth 2015. Ei enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 42, Earlswood, Castell-nedd Port Talbot i Bwynt i'r Gorllewin o Gyffordd 44, Lôn-las, Abertawe) (Cyfyngiad Cyflymder 50 mya, Gwaharddiadau a Chaniatáu Traffig ar y Llain Galed Dros Dro) 2015.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n ysgogi'r Gorchymyn hwn;

"ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway"*) yw'r darnau hynny o draffordd yr M4 a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol a fydd yn cychwyn am 20.00 o'r gloch ar 23 Mawrth 2015 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o waith wedi eu symud ymaith..

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 50 milltir yr awr yn y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, bydd y llain galed sy'n gyfagos i'r cerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yn y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i) a 2 ii) ar gael i'w defnyddio fel lôn draffig ac eithrio ar gyfer cerbydau sydd â'u lled yn 2.9 metr neu'n lletach.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y darpariaethau yn erthyglau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

**Ataliadau dros dro**

**7.** Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974**(3)** i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1, drwy hyn wedi eu hatal yn ystod y cyfryw gyfnodau pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**8.** Mae rheoliad 5 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982**(4)**, a darpariaethau rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny sy'n ymwneud â gyrru cerbydau, wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r llain galed sy'n gyfagos i'r darnau o gerbytffyrdd y draffordd tua'r dwyrain a'r gorllewin a bennir yn erthygl 6 ac y cyfeirir traffig i ddefnyddio'r llain galed benodedig.

**Parhad y Gorchymyn hwn**

**9.** Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 18 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 13 Mawrth 2015

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.
**(3)** O.S. 1974/502
**(4)** O.S.1982/1163

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

## HYD Y TERFYN CYFLYMDER O 50 MYA

i) Y darn o'r draffordd sy'n ymestyn o bwynt 350 metr i'r de o ganolbwynt traphont Red Jacket Pill, Cyffordd 42, Earlswood, Castell-nedd Port Talbot i gyfeiriad y gorllewin hyd at ganolbwynt tanbont Heol Gwernllwynchwyth, i'r gogledd-orllewin o Gyffordd 44, Lôn-las, Abertawe.

ii) Y darn o'r slipffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 42, Earlswood sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd y draffordd hyd at bwynt 500 metr i'r gogledd o'r man lle mae'n cwrdd â Chyffordd Earlswood yr A48/A483

iii) Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 42, Earlswood.

iv) Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin a thua'r dwyrain yng Nghyffordd 43, Llandarsi a Chyffordd 44, Lôn-las.

## ATODLEN 2

## HYD Y GWAHARDDIAD AR BOB CERBYD

i) Y darn o gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyn y slipffordd ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 43, Llandarsi, hyd at drwyn y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 44, Lôn-las.

ii) Y darn o gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyn y slipffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 44, Lôn-las hyd at drwyn y slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 43, Llandarsi.

iii) Hyd cyfan slipffordd ymuno'r draffordd tua'r gorllewin yng Nghyffordd 43, Llandarsi.

iv) Hyd cyfan slipffordd ymuno'r draffordd tua'r dwyrain yng Nghyffordd 44, Lôn-las.

v) Y darn o gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin yng Nghyffordd 43, Llandarsi sy'n ymestyn o drwyn y slipffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at drwyn y slipffordd ymuno tua'r gorllewin.

vi) Y darn o gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain yng Nghyffordd 43, Llandarsi sy'n ymestyn o drwyn y slipffordd ymadael tua'r dwyrain hyd at drwyn y slipffordd ymuno tua'r dwyrain.